OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 917

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym—

(a) ac eithrio rheoliadau 2 a 5, ar 1 Ebrill 2002; a

(b) rheoliadau 2 a 5 ar 9 Ebrill 2002.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "Rheoliadau 1997" ("the 1997 Regulations") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**1**);

ystyr "Rheoliadau 1986" ("the 1986 Regulations") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Cymru) 1986(**2**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygio rheoliad 8 o Reoliadau 1997**

**2.** Yn rheoliad 8 o Reoliadau 1997 (cymhwyster — cyflenwi cyfarpar optegol), ym mharagraffau (3)(c) (cael credyd treth teuluoedd sy'n gweithio) a (g) (credyd treth pobl anabl), yn lle "£71" rhowch "£72.20".

**Diwygio rheoliad 19 o Reoliadau 1997**

**3.** Yn rheoliad 19 o Reoliadau 1997 (gwerth adbrynu taleb ar gyfer amnewid neu drwsio)—

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£43.90" rhowch "£44.60"; a

(b) ym mharagraff (3), yn lle "£11.30" rhowch "£11.50".

**Diwygio'r Atodlenni i Reoliadau 1997**

**4.**—(1) Yn Atodlen 1 i Reoliadau 1997 (codau llythrennau talebau a'u gwerth ar yr wyneb — cyflenwi ac amnewid) yn ngholofn (3) (gwerth y daleb ar ei hwyneb), yn lle pob swm a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl isod rhowch y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw.

(**1**) O.S.1997/818; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S.1997/2488, 1998/499, 1999/609, 2000/978 (Cy.48), 2000/3119 (Cy.198), 2001/1362 (Cy.90), 2001/1423 (Cy.98) a 2002/186 (Cy.25).

(**2**) O.S.1986/975; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1988/486, 1989/395 a 1175, 1990/1051, 1991/583, 1992/404, 1995/558, 1996/705 a 2320, 1999/693, 1999/2481 (Cy.21) a 2001/1362 (Cy.90).

**TABL**

| (1)<br>*Yr hen swm* | (2)<br>*Y swm newydd* |
|---|---|
| £30.00 | £30.50 |
| £45.60 | £46.40 |
| £62.10 | £63.20 |
| £140.30 | £142.70 |
| £51.80 | £52.70 |
| £65.90 | £67.00 |
| £79.60 | £81.00 |
| £154.30 (yn y ddau fan lle y'i gwelir) | £157.00 |
| £43.90 | £44.60 |

(2) Yn Atodlen 2 i Reoliadau 1997 (prismau, tintiau, lensys ffotocromig, sbectolau bach ac arbennig a chyfarpar cymhleth)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a) (prism — lens golwg sengl), yn lle "£6.30" rhowch "£9.90";

(b) ym mharagraff 1(1)(b) (prism — lens arall), yn lle "£7.20" rhowch "£11.90";

(c) ym mharagraff 1(1)(c) (lens golwg sengl â thint), yn lle "£3.20" rhowch "£3.30";

(ch) ym mharagraff 1(1)(d) (lens arall â thint), yn lle "£3.70" rhowch "£3.80";

(d) ym mharagraff 1(1)(e) (sbectolau bach), yn lle "£49.90", "£43.90" a "£23.80", rhowch "£50.20", "£44.60" a "£24.20" yn eu trefn;

(dd) ym mharagraff 1(1)(g) (fframiau wedi'u gweithgynhyrchu'n arbennig) yn lle "£49.40" rhowch "£50.20";

(e) ym mharagraff 2(a) (isafswm taliad cyfarpar cymhleth — lensys golwg sengl), yn lle "£10.50" rhowch "£10.70";

(f) ym mharagraff 2(b) (isafswm taliad cyfarpar cymhleth — lensys eraill), yn lle "£26.50" rhowch "£27.00".

(3) Yn lle Atodlen 3 i Reoliadau 1997 (gwerthoedd talebau — trwsio), rhowch yr Atodlen 3 a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

### Diwygio rheoliad 13 o Reoliadau 1986

**5.** Yn rheoliad 13 o Reoliadau 1986 (Profion Golwg — cymhwyster), ym mharagraffau (2)(c) (cael credyd treth teuluoedd sy'n gweithio) a (2) (g) (cael credyd treth pobl anabl), yn lle "£71" rhowch "£72.20".

### Defnyddio'r Rheoliadau hyn

**6.** Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliadau 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â thaleb a dderbynnir neu a ddefnyddir yn union â rheoliadau 12 a 17 o Reoliadau 1997 ar 1 Ebrill 2002 neu ar ôl hynny.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*Rhodri Morgan*
Prif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol

28 Mawrth 2002

(**3**) 1998 p.38.